Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

12 Rhagfyr 2017

Annwyl Vaughan,

GOBLYGIADAU ARIANNOL BIL IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU)

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor yr wythnos diwethaf i drafod goblygiadau ariannol y Bil hwn. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, fe ddywedoch wrth y Pwyllgor y byddai'r gwaith dadansoddi diweddaraf gan Brifysgol Sheffield o'r effeithiau wedi'u modelu o isafbris uned yng Nghymru ar gael ym mis Chwefror 2018. Fodd bynnag, rwy'n nodi o'ch llythyr dyddiedig 14 Tachwedd at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon eich bod yn nodi y bydd hyn ar gael ym mis Ionawr. Felly, byddwn yn ddiolchar pe gallech gadarnhau a fydd y wybodaeth hon ar gael mewn pryd i'r ddau bwyllgor ei hystyried a'i thrafod yn ein hadroddiadau cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar 16 Chwefror.

Yn ogystal â'ch ymatebion yn ystod y sesiwn, fe gofiwch hefyd i chi gytuno i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- manylion yr adolygiad gan gymheiriaid o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yng ngwaith modelu Prifysgol Sheffield;
- rhagor o wybodaeth am y cyllid a ddyrannwyd i godi ymwybyddiaeth am yr isafbris uned;
- cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw effaith ar y fframwaith cyllidol; a
- chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ynglŷn â thrafodaethau gyda Chonsortiwm Manwerthu Cymru ynghylch ardoll wirfoddol bosibl.

Ar ben hyn, hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am gostau gorfodi darpariaethau'r Bil. Rwy'n nodi bod Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd angen iddi ddyrannu £150,000 yn y flwyddyn gyntaf wedi i'r Bil ddod i rym i ariannu gweithgarwch arolygu ychwanegol gan awdurdodau lleol i orfodi'r isafbris uned, ac y caiff cyllid o £100,000 yn yr ail flwyddyn a £50,000 yn y drydedd flwyddyn ei ddarparu at y diben hwn. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol y dywedodd Cadeirydd Safonau Masnach Cymru wrth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ei bod yn arbennig o bwysig bod cyllid digonol ar gael yn y flwyddyn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

gyntaf wedi i'r Bil ddod i rym i sicrhau cydymffurfiaeth a chodi ymwybyddiaeth am yr isafbris uned, gan awgrymu ffigur o £200,000. A fyddech cystal â chadarnhau a ydych yn bwriadu dwyn ymlaen mwy o'r cyllid a ddyrannwyd, neu ddarparu cyllid ar ben yr hyn a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl, yn enwedig o ran cadarnhau pryd y bydd y gwaith dadansoddi diweddaraf ar gael, a hynny er mwyn trafod y wybodaeth mewn da bryd cyn iddo gytuno ar ei adroddiad ar y Bil.

Yn gywir

Simon Thomas
Cadeirydd